

PWYLLGOR:	Bwrdd Pensiwn
DYDDIAD:	06/03/2023
TEITL:	Cofrestr Risg
PWRPAS:	Er mwyn deall y risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn a chraffu'r Gofrestr Risg
AWDUR:	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Dafydd L Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. CYFLWYNIAD

Mae gan y Gronfa Bensiwn Gwynedd Cofrestr Risg er mwyn adnabod a monitro risgiau sylweddol. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys y prosesau mewn lle er mwyn lleddfu'r risgiau os yw'n bosibl.

Dangoswyd copi o'r gofrestr risg gyntaf i'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 5 Ebrill 2017. Mae bellach wedi'i ddiweddarau yn 2018 ac eto yn 2019 yn unol â sylwadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd. Gan fod nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad olaf, rydym wedi gwneud adolygiad manwl o'r gofrestr eleni, gyda nifer sylweddol o'r sgoriau wedi eu addasu, nifer o risgiau newydd wedi eu adnabod a rhai risgiau wedi eu archifo gan eu bod bellach ddim yn berthnasol.

Y risgiau sydd wedi cael eu archifo ydi:

Rhif	Risg	Rheswm am archifo
2.3	Mae'r gronfa yn agored i risgiau diangen a chostau y gellir eu hosgoi oherwydd trefniadau buddsoddi strwythuro'n wael	Risg de minimis oherwydd pwlio ac wedi ehangu y math o fuddsoddiadau sydd gennym.
2.15	Buasai nifer sylweddol o aelodau'r CPLIL yn trosglwyddo eu potiau pensiwn i ddarparwyr Pensiynau eraill er mwyn cael cyfalaf o dan ddeddfwriaeth "Rhyddid a Dewis" y Llywodraeth	Tebygolrwydd o hyn yn ddigwydd yn isel iawn erbyn hyn.
4.1	Nid oes gan Gronfa Bensiwn Gwynedd adnoddau digonol ar gael i gydweithio gydag a darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r bartneriaeth.	Mae'r Bartneriaeth wedi ei sefydlu bellach ac mae staff y Gronfa yn gallu cwrdd a gofynion y Bartneriaeth yn amserol.

Mae copi o'r Gofrestr gyfredol ynghlwm fel Atodiad A.

Mae'n ddogfen weithredol a bydd adolygiad rheolaidd a diweddariad ar gyfer unrhyw risgiau sylweddol sydd yn datblygu.

2. RÔL Y BWRDD

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd craffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.